# Canfyddiadau athrawon o newidiadau a heriau i les mewn ysgolion

Yn rhan o werthuso'r '<u>Dull Ysgol Gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol</u>', cyfwelon ni â 36 aelod o staff mewn ysgolion gwahanol i ofyn y canlynol iddyn nhw: **ers Covid, sut y mae anghenion y disgyblion wedi newid o ran eu llesiant?** Er y bu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdopi'n dda, daeth ambell i her amlwg i'r golwg. Dyma grynodeb isod o'r hyn a ddywedodd staff yr **Ysgolion Uwchradd**:




## *Lles emosiynol a meddyliol:*

Mae **mwy o ddysgwyr yn dweud eu bod nhw'n dioddef o orbryder yn yr ysgol** yn gyffredinol neu mewn sefyllfaoedd penodol – yn aml mewn gwersi penodol neu mewn llefydd gorlawn fel neuaddau cinio. Roedd hyn yn golygu **cynnydd mewn ceisiadau am seibiant** mewn canolfannau lles neu fannau ar wahân eraill ac **amserlenni hybrid**, gyda rhywfaint o ddysgu yn cael ei wneud gartref.

## *Presenoldeb:*

**Roedd presenoldeb dysgwyr yn is yn gyffredinol na chyn y pandemig.** Ystyrir hyn gan staff yn gysylltiedig â lles meddyliol ond hefyd, i rai dysgwyr a'u teuluoedd, eu bod yn teimlo bod presenoldeb yn cael ei ystyried yn llai angenrheidiol neu bwysig nag o'r blaen.





## *Ymgysylltu â theuluoedd:*

**Dywedodd rhai bod teuluoedd yn ymgysylltu'n well, weithiau o ganlyniad i'r galwadau gwirio rheolaidd** a'r galwadau lles yr oeddent wedi'u cynnal yn ystod y cyfnodau clo, a bod y rhain wedi gwella perthnasoedd. Dywedodd eraill fod **rhai teuluoedd wedi ymddieithrio mwy o'r ysgol** o ganlyniad i'r ffaith nad oedd cyswllt wyneb yn wyneb ganddynt.

DECIPHer
Y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd
Canolfan Ragoriaeth Ymchwil Iechyd y Cyhoedd
DECIPHer
Centre for Development, Evaluation, Complexity and Implementation in Public Health Improvement
A Public Health Research Centre of Excellence
Cardiff University
Prifysgol Caerdydd
Wolfson Centre for Young People's Mental Health
Canolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc

# Canfyddiadau athrawon o newidiadau a heriau i les mewn ysgolion (parhad)

Gofynnwyd i'r staff am **yr heriau a wynebwyd wrth iddynt geisio ymateb i'r newidiadau hyn.** Dyma rai o'r materion allweddol a ddaeth i'r amlwg:

## *Lle ac amser:*

**Roedd dod o hyd i fannau i ddysgwyr oedd angen cymryd seibiant allan** o'r ystafell ddosbarth aml yn heriol oherwydd diffyg arian a/neu le yn adeilad yr ysgol i wneud hyn. **Dywedodd yr holl staff fod diffyg amser yn her**, yn enwedig staff bugeiliol sy'n delio â llwythi achosion uwch. Bu i'r staff hefyd drafod rheoli **a chydbwyso agendâu gwahanol**, ochr yn ochr ag anghenion dysgwyr, gan gynnwys newidiadau i'r cwricwlwm a chyflwyno mentrau polisi.






## *Hyfforddiant a chymorth:*

Roedd ambell aelod o staff yn pryderu am y **diffyg hyfforddiant i fedru ymdrin â materion mwy cymhleth** h.y. iechyd meddwl – arweiniodd hyn at bryderon o ran rhoi'r ymateb 'anghywir' i ddisgyblion wrth drafod eu hiechyd meddwl. Er bod gan bob un ohonynt gysylltiadau â gwasanaethau arbenigol sy'n allanol i'w hysgolion, dim ond hyn a hyn o gapasiti sydd gan y gwasanaethau hyn, yn ogystal ag amseroedd aros hir. Golyga hyn oll fod **yn rhaid i ysgolion geisio delio â mwy o faterion o'r fath yn fewnol am gyfnod hirach.**

## *Rheoli disgwyliadau:*

**Cydnabyddir bod ymwybyddiaeth gynyddol o'r cymorth sydd ar gael ar gyfer llesiant meddyliol yn rhywbeth cadarnhaol**, o ran annog dysgwyr i geisio am gymorth ac i leihau stigma. Ar y llaw arall, roedd pryderon ynghylch **disgwyliadau cynyddol dysgwyr a theuluoedd dros beth y mae ysgolion yn gallu datrys.** Roedd pryderon ynghylch cynnydd yn nifer yr achosion o **hunan-ddiagnosis a disgwyliadau afrealistig** o ran pa fath o gymorth a ellir ei chynnig, gan roi straen ychwanegol ar staff ac adnoddau ysgolion.




DECIPHer
Y Ganolfan Datblygu a Gwerthuso Ymyriadau Cymhleth er mwyn Gwella Iechyd y Cyhoedd
Canolfan Ragoriaeth Ymchwil Iechyd y Cyhoedd
DECIPHer
Centre for Development, Evaluation, Complexity and Implementation in Public Health Improvement
A Public Health Research Centre of Excellence
Cardiff University / Prifysgol Caerdydd
Wolfson Centre for Young People's Mental Health
Canolfan Wolfson ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Ifanc